# ADRODDIAD CAU YR ATOM CANOLFAN GYMRAEG GAERFYRDDIN




Ebrill 2017

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Nod y Prosiect ac Amcanion y Prosiect | 4 |
| Sut y mae'r nod a'r amcanion hyn yn cyfrannu at feysydd strategol Iaith fyw: iaith byw a Bwrw Mlaen: | 6 |
| Tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd | 12 |
| Hunan-asesiad o effeithiolrwydd a dylanwad y prosiect | 18 |
| Gwersi a ddysgwyd wrth gynnal y prosiect | 20 |
| Atodiad 1- Cylch gorchwyl y Pwyllgor Strategol | 23 |
| Atodiad 2 - Cynllun Strategol Yr Atom | 25 |
| Atodiad 3 - Pamffled farchnata yn crynhoi'r 6 mis cyntaf | 37 |

## CYFLWYNIAD

Hysbyswyd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant fis Rhagfyr 2014 i'w chais am grant o du Cronfa Buddsoddi Cyfalaf 2014/15 Llywodraeth Cymru i ddatblygu Canolfan Gymraeg yn nhref Caerfyrddin gael ei gymeradwyo. Yn sgil derbyn grant o £355,000 o du'r Llywodraeth, aeth y Brifysgol ati i brynu adeilad pwrpasol yng nghanol y dref ac, yn dilyn ymgynghoriad lleol a chryn waith addasu a buddosddiad pellach gan y Brifysgol y tu mewn i'r adeilad, agorwyd Yr Atom yn swyddogol gan Brif Weinidog Cymru ddechrau Hydref 2015.

Yn ystod deunaw mis cyntaf o'i bodolaeth, ymwelodd oddeutu 70,000 â'r ganolfan a chynhaliwyd digwyddiadau yno yn enw dros 60 o fusnesau, sefydliadau, cyrff a mudiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gwahanol. Cydnabuwyd o'r cychwyn mai cynllun tymor hir fyddai prosiect Yr Atom a'r nod, yn y tymor byr, fyddai gosod gwreiddiau gan sicrhau bod y fenter yn **hyfyw** yn **gynaliadwy** ac yn cael ei **pherchenogi** gan gymuned Gymraeg y dref a'r cyffiniau.

Sefydlwyd Yr Atom mewn cyfnod digon heriol i'r Gymraeg yn Sir Gâr. Gŵyr pawb sy'n ymddiddori yn yr iaith am ganlyniadau siomedig Cyfrifiad 2011, gyda 43.9% yn unig o boblogaeth y sir yn eu disgrifio eu hunain yn siaradwyr Cymraeg o'i gymharu â 50.3% yn 2001. Gellid ystyried y ffigwr hwn yn drothwy tyngedfennol a bod tref Caerfyrddin yn cynnig canolbwynt amlwg ar gyfer adfywio'r sefyllfa led-led y sir.

Er gwaetha siom y Cyfrifiad, gwelwyd rhai arwyddion gobeithiol yn y sir yn ystod y cyfnod diweddar e.e. penderfyniad Awdurdod S4C i symud pencadlys y Sianel i Gaerfyrddin, gyda'r gobaith o greu dwsinau o swyddi o'r newydd ym meysydd y cyfryngau creadigol a digidol, ynghyd â chefnogaeth y Cyngor Sir i'w Strategaeth Gymraeg newydd uchelgeisiol. Mae'r datblygiadau hyn yn perthyn yn agos i rai o argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen *Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth

Cymru fis Rhagfyr 2013, adroddiad sy'n cyfeirio at Gaerfyrddin fel un o dair dinas-ranbarth yng Nghymru lle dylid rhoi ffocws ar flaenoriaethu adfywio cymunedol ac adfywio ieithyddol law yn llaw. Hyderir y byddai gan Yr Atom rôl allweddol i'w chwarae yn y dyfodol wrth wireddu'r amcanion hyn.

Rydym yn ymwybodol o fwriad Lywodraeth Cymru i gyhoeddi strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg yn ystod haf 2017. Bydd y strategaeth hon yn gosod gweledigaeth hirdymor y Llywodraeth sy'n ymestyn dros gyfnod rhwng 2017 a 2050 gyda'r uchelgais o weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Hyderir y bydd gan Yr Atom rôl greiddiol i'w chwarae wrth wireddu'r strategaeth hon yn lleol ac y'i cyllidir yn y fath fodd fel y caiff gyfle gwirioneddol i effeithio'n gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn ei milltir sgwâr.

Gellid dadlau bod Yr Atom bellach wedi ennill ei phlwyf ac mewn sefyllfa gref i adeiladu ar y sylfeini cadarn a ddatblygwyd yn ystod y deunaw mis diwethaf. Hyderir y bydd modd parhau i gydweithio â'n partneriaid amrywiol dros y cyfnod nesaf gan ymateb yn rhagweithiol i weledigaeth Iaith fyw: iaith byw er lles y Gymraeg a'i diwylliant yng Nghaerfyrddin a'r cyffiniau.

## NOD Y PROSIECT AC AMCANION Y PROSIECT

Prif nod y ganolfan yw dwyieithogi tref Caerfyrddin gyda phwyslais penodol ar wneud y Gymraeg yn fwy **gweladwy** a **chlywadwy** o gwmpas y dref. Ers yr agoriad swyddogol ym mis Hydref 2015 mae'r broses wedi ei sefydlu o gydweithio'n agos gyda'r Cyngor Sir, Coleg Sir Gâr, Menter Gorllewin Sir Gâr, Cyngor Tref Caerfyrddin a busnesau ac asiantaethau perthnasol i weddnewid delwedd Caerfyrddin gan ei datblygu'n dref 'dwf' ar gyfer y Gymraeg. Mae'r weledigaeth a gynigiwyd yn cefnogi'r prif themâu a adnabuwyd yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhagfyr 2013 'Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith' sef:

- Trosglwyddo'r iaith a'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y teulu

- Addysg
- Bwrlwm cymdeithasol a diwylliannol
- Statws, economi a seilwaith.

Yn deillio o'r themâu uchod nodir mai'r prif amcanion ar gyfer yr Atom yw:

(i) Gweithredu fel Canolfan Gymraeg fyrlymus ar gyfer tref Caerfyrddin a'r cyffiniau.

(ii) Gweithio mewn partneriaeth â mudiadau, cymdeithasau a chyrff eraill er mwyn datblygu cynllun integredig i hyrwyddo'r Gymraeg yn nhref Caerfyrddin.

(iii) Darparu cartref ar gyfer busnesau a mentrau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y dref.

(iv) Cydweithio ag eraill i ddarparu rhaglen o weithgareddau Cymraeg ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol yn y dref.

(v) Darparu gwasanaethau cefnogol i fusnesau'r dref, yn cynnwys rhaglen o fodylau dysgu a gloywi iaith wedi eu hachredu, er mwyn cefnogi eu hymdrechion i ddwyieithogi eu gweithleoedd.

Cymeradwywyd yr amcanion uchod gan Bwyllgor Strategol Yr Atom a sefydlwyd yn ddiweddar er mwyn cytuno ar flaenoriaethau strategol ar gyfer y ganolfan ac i roi llais i'w defnyddwyr a'i thenantiaid. Cynhwysir aelodaeth a chylch gorchwyl y Pwyllgor Strategol yn Atodiad 1. Law yn llaw â hynny, sefydlwyd Pwyllgor Gweithredol a fydd yn bennaf gyfrifol am weithredu Cynllun Strategol Yr Atom yn ystod y cyfnod Medi 2017 – Awst 2019 yn y lle cyntaf. Nodir bod y Pwyllgor Gweithredol yn atebol i'r Pwyllgor Strategol ac mae hwnnw, yn ei dro, yn atebol i Bwyllgor Materion Cymraeg a Senedd y Brifysgol yn y pen draw.

Cyfeiria datganiad polisi'r Llywodraeth ar gyfer tair blynedd olaf y strategaeth, *Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen 2014-2017*, at bedair thema y dymunir canolbwyntio arnynt sef:

- Yr angen i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr economi a'r Gymraeg.
- Yr angen am gynllunio strategol gwell ar gyfer y Gymraeg.
- Y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
- Yr her o newid ymddygiad ieithyddol.

Er bod agweddau ar raglen waith Yr Atom dros y deunaw mis diwethaf wedi cyffwrdd â'r tair thema arall, canolbwyntio'n fwy na heb ar y drydedd thema a wnaeth y ganolfan mewn gwirionedd. Manylir ar hyn yng nghorff yr adroddiad.

## SUT MAE'R NOD A'R AMCANION HYN YN CYFRANNU AT FEYSYDD STRATEGOL IAITH FYW: IAITH BYW A BWRW MLAEN:

Gyda 'hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned' yn brif thema ar ei gweithgarwch yn ystod deunaw mis cyntaf ei bodolaeth, canolbwyntiodd Yr Atom hefyd ar wireddu amcanion chwe maes strategol strategaeth y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg sef Y Teulu, Plant a Phobl Ifanc, Y Gymuned, Y Gweithle, Gwasanaethau Cymraeg a Seilwaith. Eglurir isod sut y gwireddwyd yr amcanion hyn yng nghyd-destun Yr Atom.

**(i) Y Teulu: Annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd.**

Wrth ymateb i faes strategol Y Teulu roeddem yn llwyr ymwybodol bod trosglwyddo iaith o'r naill genhedlaeth i'r llall yn allweddol i'r broses o gynllunio ieithyddol. O ganlyniad i'r ddealltwriaeth honno ac er mwyn ymateb yn uniongyrchol i'r Strategaeth, aethpwyd ati drwy weithio mewn partneriaeth â mudiadau, cymdeithasau a chyrff eraill i:

- adleoli a chartrefu Cylch Ti a Fi tref Caerfyrddin yn Yr Atom gan fuddsoddi'n sylweddol mewn ystafell bwrpasol ar ei gyfer. Derbyniwyd nawdd a chefnogaeth ymarferol o du S4C i noddi wal 'Cyw' o fewn yr ystafell;
- darparu rhaglen o ddigwyddiadau teuluol trwy gydol y flwyddyn drwy gydweithrediad Caffi'r Atom, Menter Gorllewin Sir Gâr, Cyngor y Dref a Chyngor Sir Gâr;
- cynnig adnoddau i deuluoedd gynnal partïon pen-blwydd mewn awyrgylch Cymraeg e.e. yng nghwmni cymeriadau Cyw drwy gydweithrediad Caffi'r Atom;
- gweithredu fel cartref ar gyfer 'Clwb Clecs Caerfyrddin' lle ceisir cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith unigolion isel eu hyder yn y

[redacted]

Gymraeg nad ydynt yn arfer defnyddio'r iaith gyda'u plant nac yn gymdeithasol o dan oruchwyliaeth staff y Cyngor Sir a Menter Gorllewin Sir Gâr;

- datblygu partneriaeth gydag ysgolion lleol a dechrau cynllunio cyrsiau iaith i rieni ysgol a'r feithrinfa yn ystod oriau ysgol drwy gydweithrediad Canolfan Peniarth a'r Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg.
- Datblygu partneriaeth agos gyda Chlwb Pêl-droed Sêr Caerfyrddin drwy noddi ei wisg, dylunio deunyddiau printiedig ar ei gyfer yn ddwyieithog a chefnogi'r bencampwriaeth leol sy'n denu 3000 o blant a rhieni'n flynyddol.

Er y cydnabyddir ei bod hi'n heriol i ddadansoddi effaith yr uchod ar ffurf canlyniadau meintiol mewn cyfnod byr ers sefydlu'r Ganolfan, gellir dadlau bod cyfraniad wedi ei wneud er mwyn cynyddu'r defnydd o'r iaith ynghyd â datblygu gallu a hyder unigolion i'w defnyddio yng nghyd-destun gweithgarwch teuluol.

**(ii) Plant a Phobl Ifanc: Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.**

Yn ystod y cyfnod cynnar o sefydlu'r Ganolfan ac yn unol â'n hamcan o gydweithio ag eraill i ddarparu rhaglen o weithgareddau Cymraeg ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol yn y dref ac, yn benodol yng nghyd-destun plant a phobl ifanc, gellir nodi ein bod wedi ymateb i'r sefyllfa drwy sefydlu, cynllunio a darparu'r canlynol:

[redacted]

- cynnal Clwb Ieunectid yn wythnosol o dan oruchwyliaeth Yr Urdd;
- gweithredu fel cartref ar gyfer Clwb Ieuenctid cyfrwng Cymraeg y dref;
- gweithredu fel cartref ar gyfer Ysgol Berfformio Dyffryn Tywi;
- darparu gwasanaethau addysg sy'n cyfuno ysgolion, colegau, y brifysgol a'r gymuned gan gynllunio ceisiadau sy'n denu incwm. Yn dilyn asesiad cychwynnol ffafriol gan RPD Sir Gâr o gais a gyfunai weithgaredd addysgol mewn ppartneriaeth â busnesau'r dref, byddwn yn ail gyflwyno'r cais gan ystyried gweithgareddau ehangach a ddarperir gan asiantaethau eraill sy'n derbyn cyllid RDP yn y dref;
- cynnig cyfleon i unigolion oddi fewn i ysgolion uwchradd lleol ennill profiad gwaith a chyfleoedd i gyfrannu'n ymarferol tuag at eu hastudiaethau e.e.

ennill profiadau Cyfranogi yn y Gymuned fel rhan o'r Fagloriaeth Gymreig;

- datblygu cyfleon i fyfywryr y Brifysgol a Choleg Sir Gâr gyflawni gwaith gwirfoddol sy'n cryfhau eu cyflogadwyedd;
- gweithredu fel canolfan addysg gymunedol lle darparwyd cyrsiau ehangu mynediad cyfrwng Cymraeg mewn meysydd megis celf, dawns a ffotograffiaeth mewn cydweithrediad a Menter Gorllewin Sir Gâr ac Arts Care Gofal Celf i bobl ifanc.

Yn sicr mae'r cyfleoedd uchod wedi cyfrannu tuag at ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau tu allan i furiau'r ysgol sy'n cynnig cyfle "r bobl ifanc ryngweithio gyda'u ffrindiau a chyfathrebu yn y Gymraeg mewn amryw sefyllfaoedd cymdeithasol. Yn sail i'r gosodiad uchod ceir tystiolaeth fod hynny'n wir drwy arsylwadau amrywiol yn ystod y digwyddiadau a drwy gyfweliadau anffurfiol gyda'r unigolion a'r asiantaethau oedd ynghlwm â'r gweithgareddau.

**(iii) Y Gymuned: Cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned.**

Yn unol â'r amcanion sy'n greiddiol i lwyddiant Yr Atom, gellir nodi bod ein hymwneud â'r amcan o weithio mewn partneriaeth â mudiadau, cymdeithasau a chyrff eraill er mwyn datblygu cynllun integredig i hyrwyddo'r Gymraeg yn nhref Caerfyrddin wedi dechrau dwyn ffrwyth. Mae'r berthynas waith agos sydd wedi ei sefydlu gyda dau o ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Gymraeg Cenedlaethol, sef Prifysgol Aberystwyth a Chyngor Sir Gâr, wedi sicrhau ein bod yn ymateb i un obrif amcanion strategaeth y Llywodraeth gan geisio gwrthdroi'r newid ieithyddol yn yr ardal. Yn ystod y deunaw mis darparwyd dros 550 o sesiynau ieithyddol ar lefel mynediad, sylfaen, canolradd ac uwch yn ogystal â nifer o Sadyrnau Siarad hynod lwyddiannus dan oruchwyliaeth y darparwyr. I gefnogi'r ddarpariaeth honno ac yn ystod gwahanol gyfnodau gwelwyd fod effaith caffi masnachol Yr Atom yn cynnig cyfle unigryw i'r unigolion hynny ymarfer eu hiaith mewn sefyllfa gymdeithasol gan glywed yr iaith yn cael ei siarad o'u cwmpas yn naturiol. Dengys drwy dystiolaeth o arsylwi a sgwrsio gyda'r rhanddeiliaid bod effaith y caffi'n gadarnhaol er mwyn rhoi'r cyfleodd iddynt siarad yr iaith, cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ac, yn sgil hynny, roi hyder iddynt i'w defnyddio'n

gymdeithasol. Gellir nodi prif gyflawniadau'r Atom wrth ymateb i'r maes strategol penodol hwn o'r gweithgarwch canlynol:

- darparu rhaglen lawn o raglenni Cymraeg i Oedolion mewn amgylchedd croesawgar ddydd a nos mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth a Chyngor Sir Caerfyrddin;
- gweithredu fel man cyfarfod ar gyfer pwyllgorau neu gymdeithasau sy'n ymwneud â'r diwylliant Cymraeg yn y dref;
- gweithredu fel man cyfarfod i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg;
- darparu ystafelloedd y gellid eu hurio gan unigolion neu grwpiau/cymdeithasau ar gyfer digwyddiadau a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog;
- darparu rhaglen flynyddol o weithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg o dan arweiniad Menter Gorllewin Sir Gâr, ysgolion lleol a'r Urdd.

**(iv) Y Gweithle: Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.**

Cydnabyddir bod y gweithle yn un o'r meysydd allweddol sy'n dylanwadu ar yr iaith a ddefnyddir o ddydd i ddydd. I'r perwyl hwnnw ers sefydlu'r Atom rydym wedi gweithio'n ddygn i ddatblygu trafodaethau gydag amryw o gwmnïau preifat, cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Hywel Dda a'r Cyngor Sir er mwyn ceisio cefnogi'r Gymraeg yn y gweithle gan arddangos y manteision o wneud hynny. O ganlyniad i'r trafodaethau dwys hynny, rydym yn ymateb yn gadarnhaol i'n amcan o *ddarparu gwasanaethau cefnogol i fusnesau'r dref, yn cynnwys rhaglen o fodylau dysgu a gloywi iaith wedi eu hachredu, er mwyn cefnogi eu hymdrechion i ddwyieithogi eu gweithleoedd.* Gyda hynny mewn golwg, gweler isod ein cyflawniadau yn ystod y deunaw mis diwethaf sy'n ymateb yn uniongyrchol i strategaeth y Llywodraeth yn y cyd-destun hwn:

- cydweithio gydag Chyngor Sir Gâr a thîm polisi Iaith y Sir i ddatblygu pecyn Ymwybyddiaeth Iaith ar gyfef y Fforwm Sirol;
- cydweithio â ynghyd â chynghori'r Sir ynghylch Mesur Y Gymraeg (2011) gan ddatblygu canllawiau hylaw sy'n ymateb yn gadarnhaol i hysbysiad cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg;